

“THE TOWN SANG AND DANCED”


Dylan Thomas, “The International Eisteddfod”, BBC Radio Broadcast July 13, 1953.



Derbyniwyd côr o Barcelona ar gyfer yr Eisteddfod gyntaf ym 1947, ond fe wnaethant ganslo'n hwyr. Yn yr argyfwng hwn, trefnodd y Cyfarwyddwr Cyhoeddusrwydd, Harold Tudor, gyda llywodraeth Madrid i griw llên gwerin o'r radd flaenaf ddod yn eu lle (chwith). Cafodd eu perfformiadau effaith mor ddwys ar y cynulleidfaoedd nes i gystadlaethau côr gwerin a dawns werin gael eu cyflwyno ym 1948. Enillwyd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth ddawns gyntaf gan grŵp ieuenctid o Wlad Pwyl o wersyll pobl wedi'u dadleoli ym Môn (dde).



Roedd y cystadlaethau gwerin yn hynod boblogaidd, gan ddiffinio'r Eisteddfod i bob pwrpas am flynyddoedd lawer. Dychwelodd grwpiau flwyddyn ar ôl blwyddyn: o 1951 hyd 2011 anfonodd diaspora Wcreinaidd Manceinion y dawnsyr Orlyk (chwith), a gofir yn annwyl fel y “Mancraniaid”. Daeth y grwpiau cyntaf o Wcráin ei hun ym 1987, a pharhaodd hynny hyd oresgyniad Rwsia ar Crimea yn 2014.



Ersydyddiaucynnar,maerhaio'rperfformwyr mwyaf poblogaidd wedi dod â diwylliant is-gyfandir India i Langollen. Ym 1951 roedd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn rhan swyddogol o Wyl Prydain. Roedd y cyngerdd agoriadol yn cynnwys cyfuniad ysblennydd Ram Gopal o ddawns glasurol Orllewinol ac Indiaidd. Daeth cystadleuwyr Indiaidd a oedd wedi'u lleoli yn y DU ym 1971. Ers 1994 mae dawnsyr treftadaeth Indiaidd o'r Punjab, dan arweiniad Rajpal Singh (dde), wedi dod â lliw a bywiogrwydd i'r wyl.



Daeth cyfranogiad Affrica yn araf i ddechrau: Algeria Ffrengig ym 1957, y Boeriaid o Dde Affrica ym 1958, ac Uganda (chwith) ym 1967. Wedi i'r Eisteddfod ymuno â boicot diwylliannol y Cenhedloedd Unedig yn erbyn gwledydd apartheid, cyflymodd y broses: Namibia, Lesotho, Zimbabwe, Camerŵn, Mauritius, Swaziland, Gambia, Zambia, Kenya, Tiwnisia a Rwanda. Ers 2016 mae Mother Touch o Zimbabwe wedi goleuo'r dref ar sawl achlysur.



Ar wahân i Hong Kong drefedigaethol, aroedd gwledydd De-ddwyrain Asia yn araf i ddarganfod yr Eisteddfod. Perfformiodd Hui Zhou Hakka Arts Troupe o Dde Tseina (dde) “The Heart of the Dragon” mewn cyngerdd gyda'r nos yn 2004 ar ôl cymryd rhan yn yr orymdaith drwy'r dref.

Perfformiodd cwmnïau bale blaenllaw ar lwyfan Llangollen yn y 1950au: Sadler's Wells gyda Margot Fonteyn (pellaf i'r chwith), a Ballet Rambert gydag Alicia Markova (chwith).

O'r 1960au hyd at y Mileniwm, darparodd cwmnïau llên gwerin cenedlaethol gyngherddau agoriadol rhyngwladol cost-effeithiol, megis cyflwyno 20 o ddawnsiau gwerin Almaenig ym 1991.

Yn 2013 ceisiodd y Cyfarwyddwr Cerdd, Eilir Owen Griffiths, fewnforio poblogrwydd rhaglen deledu Strictly Come Dancing, gyda llwyddiant cymysg.

